Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Chwefror 2020

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
yn unol ag Adran 3C Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965
fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 Deddf Cymru 2014

OGL © Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru. WG40116 Digidol ISBN 978-1-80038-165-0

Cynnwys

Cyflwyniad 2

cvwmpas yr adroddiad 3

Cynigion sydd wedi cael eu rhoi ar waith 4

Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru 4

Cynigion nad ydynt eto wedi cael eu rhoi ar waith 6

Cyfraith Etholiadol

y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Diwygio Lesddalioadol a Chyfunddaliadol 10

Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol 10

Tribiwnlysoedd Datganoledig i Gymru

Diwygio Lesddaliadol a Chyfunddaliadol 10

Penderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith 11

Cyflwyniad

Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith gan Weinidogion Cymru. Dyma'r pumed adroddiad blynyddol i'w gyflwyno ar ôl pasio Deddf Cymru 2014. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 16 Chwefror 2019 a 14 Chwefror 2020.

Mae Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y maent wedi rhoi cynigion Comisiwn y Gyfraith ar waith yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.

Mae cynnydd wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf ar ystod o faterion a fu'n destun argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Rydym wedi cymryd camau breision mewn perthynas â gwella ffurf a hygyrchedd cyfraith Cymru, gan gynnwys trwy Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 sy'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Rydym wedi ymgynghori ar Bapur Gwyn ar wella trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru a gymerodd i ystyriaeth argymhellion Comisiwn y Gyfraith ynghylch gwasanaethau tacsis a cherbydau hurio preifat. Cyhoeddwyd ymateb interim i adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r gyfraith gynllunio yng Nghymru, ac rydym yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r set lawn o argymhellion. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag adrannau Llywodraeth y DU ar yr is-ddeddfwriaeth a'r cod ymarfer ar gyfer gweithredu Mesurau Diogelwch i Ddiogelu Rhyddid i sicrhau bod y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer awdurdodi gofal a thriniaeth sy'n gyfystyr ag amddifadu rhyddid person yn adlewyrchu'r tirlun deddfwriaethol a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am sut yr ydym wedi ymgysylltu â Chomisiwn y Gyfraith ar ei brosiectau presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys diwygio lesddaliadol a chyfunddaliadol.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwys mawr ar gynigion Comisiwn y Gyfraith, fel y dangosir gan y cynnydd a'r gweithgarwch a nodir yn yr adroddiad.

Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru

14 Chwefror 2020

Cwmpas yr adroddiad

1. Mae Adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi'u gweithredu y flwyddyn honno.

2. Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 16 Chwefror 2019 a 14 Chwefror 2020.

3. Fel y pennir gan y Ddeddf, mae'r adroddiad yn cwmpasu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn, a'r cynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd heb gael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rhoi cynigion ar waith a phenderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith.

4. Mae'r adroddiad yn cwmpasu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.

Cynigion sydd wedi cael eu rhoi ar waith

Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru

5. Roedd Llywodraeth Cymru'n falch o allu derbyn, neu dderbyn o ran egwyddor, bob un ond un o argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad 2016 ar ffurf, cyflwyniad a hygyrchedd y gyfraith sy'n ymwneud â Chymru. Aed ati i roi'r argymhellion ar waith bron ar unwaith, ac yn fwyaf arbennig roedd un argymhelliad yn golygu bod Y Cwnsler Cyffredinol yn cyflwyno deddfwriaeth y bwriedir iddi wneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch, yn fwy clir ac yn symlach i'w defnyddio.

6. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru (un o argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith). Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Er mwyn llywio'r broses o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog y Gyfraith ar gyfer Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru yn rheolaidd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol canolbwyntio ar y gyfraith yn ei chyfanrwydd, boed hynny'r gyfraith ar bwnc penodol neu'r llyfr statud yn ei grynswth. Mae'n golygu hefyd y bydd rhwymedigaeth y Cwnsler Cyffredinol i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru yn berthnasol pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid cynnig deddfwriaeth newydd.

7. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddatblygu rhaglen weithredu y bwriedir iddi wella hygyrchedd cyfraith Cymru ar gyfer pob Tymor y Cynulliad (mewn geiriau eraill, y cyfnod o adeg ffurfio'r Cynulliad ar ôl Etholiad Cyffredinol i'r adeg y caiff ei ddiddymu cyn yr etholiad cyffredinol dilynol). Er mai mater i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol fydd union gynnwys rhaglen ar y pryd, rhaid i bob rhaglen wneud darpariaeth ar gyfer mesurau y bwriedir iddynt gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cadw cyfraith sydd wedi'i chodeiddio, hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gyfraith Cymru a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae cydgrynhoi a chodeiddio Cyfraith Cymru wrth wraidd Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, ac mae'n ganolog i'r dasg o wneud y gyfraith yn fwy hygyrch.

8. Caiff y rhaglen gyntaf sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ei pharatoi erbyn y Llywodraeth nesaf (yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021), ond mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi dechrau ar y gwaith manwl y mae ei angen i gydgrynhoi'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol a chynllunio (gweler hefyd baragraffau 17 i 19). Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori hefyd ar ei chynigion ar gyfer categoreiddio, cydgrynhoi a chodeiddio Cyfraith Cymru (yn fwy cyffredinol), a'r ffordd orau o wella cyfathrebu am y gyfraith. Bydd y canfyddiadau o'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 31 Ionawr, yn llywio datblygu'r rhaglen gyntaf i'w chyflwyno.

9. Adroddir yn y dyfodol am y ffordd y mae'r Llywodraeth yn cyflenwi ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, sy'n adeiladu ar argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith, trwy Adroddiad Blynyddol i'r Cynulliad (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

Cynigion nad ydynt eto wedi cael eu rhoi ar waith

Cyfraith Etholiadol

10. Fel rhan o'i 11eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith, aeth Comisiwn y Gyfraith ati i symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu pob etholiad a refferendwm, ac i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith sy'n llywodraethu cynnal etholiadau a refferenda. Cyhoeddodd Comisiynau'r Gyfraith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gyd-adroddiad interim yn Chwefror 2016. Mae disgwyl cyhoeddi adroddiad terfynol y Comisiynau ym mis Mawrth 2020.

11. Yn dilyn datganoli deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau lleol yng Nghymru yn 2017, cafodd swyddogaethau Gweinidogol yn y maes hwn eu datganoli yn Ebrill 2018. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi mynd ar drywydd agenda eang ym maes diwygio etholiadol. Mae hyn wedi cynnwys estyn yr etholfraint, newidiadau i gyfundrefnau anghymhwyso a diwygio'r canfasiad blynyddol.

12. Mae argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch cydgrynhoi'r gyfraith etholiadol wedi'i ystyried fel rhan o agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru ac yn parhau i lywio rhaglenni gwaith at y dyfodol yn y maes hwn.

13. Yn ogystal, bydd yr agenda diwygio etholiadol yng Nghymru'n dilyn yr egwyddorion a nodir yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 sydd, ymhlith darpariaethau eraill, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i ddatblygu rhaglen weithredu y bwriedir iddi wella hygyrchedd cyfraith Cymru ar gyfer pob tymor Cynulliad. Dylai pob rhaglen wneud darpariaeth ar gyfer mesurau y bwriedir iddynt gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cadw cyfraith wedi'i chodeiddio a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid

14. Ym Mawrth 2017, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad a Bil Drafft yn argymell bod y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn cael eu disodli â chynllun arall yn ei le. Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil i ddiwygio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn haf 2018, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 16 Mai 2019. Er nad ydynt wedi'i henwi ar wyneb y Ddeddf, cyfeirir at y trefniadau gweithdrefnol newydd ar gyfer awdurdodi gofal a thriniaeth sy'n gyfystyr ag amddifadu rhyddid person fel Mesurau Diogelwch i Ddiogelu Rhyddid (LPS).

15. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio'n agos ag adrannau Llywodraeth y DU ar y pwnc cadwedig hwn i sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer ar gyfer gweithredu'r LPS yn adlewyrchu'r tirlun deddfwriaethol a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y rheoliadau a'r Codau Ymarfer drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2020 a Rhagwelir y bydd cyfnod pontio o 12 mis

rhwng y Trefniadau Diogelu presennol wrth Amddifadu o Ryddid a rhoi'r LPS ar waith yn llawn. Bydd y rhaglen waith mewn perthynas â darpariaethau yn y Ddeddf sy'n cyflwyno pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru hefyd yn cyd-fynd ag amserlenni Llywodraeth y DU, ochr yn ochr â datblygu gwaith paratoi a gweithredu strategol gyda'r sector.

16. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn 2019 y bydd yn ymateb i adroddiad yr adolygiad annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ar ffurf Papur Gwyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried cynigion Llywodraeth y DU yn ofalus yn ogystal ag ymatebion i'r ymgynghoriad i ystyried y sefyllfa i Gymru, gan gynnwys unrhyw gynigion sy'n ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru

17. Cafodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar y gyfraith gynllunio yng Nghymru ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w ystyried yn Nhachwedd 2018. Mae'n nodi adolygiad y Comisiwn ar y maes hwn o'r gyfraith gydag argymhellion ar symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth.

18. Ym mis Mai 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb interim i'r Adroddiad, a oedd yn canolbwyntio ar y casgliadau craidd a nodir yn Rhan 1 o'r papur ymgynghori a'r Adroddiad Terfynol. Yn benodol, mae'n nodi ymateb y llywodraeth i farn Comisiwn y Gyfraith am yr angen i symleiddio a chydgrynhoi'r gyfraith gynllunio, yr achos dros god cynllunio a chwmpas yr ymarfer cydgrynhoi cychwynnol. Mae'n tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn, gyda gwaith eisoes wedi dechrau ar Bil Cydgrynhoi Cynllunio.

19. Mae cryn waith wedi'i wneud eisoes o ran llunio'r ymateb manwl i'r Adroddiad, a fydd yn canolbwyntio ar ymateb i'r 192 o argymhellion a nodir yn Rhan 2 o'r Adroddiad. Caiff yr ymateb ei gyhoeddi yn nes ymlaen y gwanwyn hwn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

20. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ar ombwdsmyn gwasanaethau cyhoeddus yn 2011 a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Wedi hynny, cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ymchwiliad, gan gynnwys cyfnod ymgynghori, mewn perthynas ag estyn pwerau'r Ombwdsmon. Cafodd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Mawrth 2019 ac fe gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 22 Mai 2019.

21. Rhai o'r prif newidiadau a wneir i bwerau'r Ombwdsmon gan y Ddeddf yw:
    - pŵer i'r Ombwdsmon gynnal ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun";

- Gwell mynediad i'r Ombwdsmon trwy dderbyn cwynion a wneir heblaw yn ysgrifenedig;
- Y pŵer i ymchwilio i lwybrau gofal iechyd preifat o dan rai amgylchiadau; a
- pŵer i'r Ombwdsmon gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.

22. Mae'r Ddeddf yn adlewyrchu'r mwyafrif, ond nid pob un o'r materion a ystyriwyd gan ymchwiliad y Pwyllgor. Mewn perthynas ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, mae paragraff 4.5 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf yn datgan "*Roedd argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys gwella mynediad at yr Ombwdsmon drwy addasu'r 'bar statudol', gan greu pŵer newydd i ohirio cais am adolygiad barnwrol a chaniatáu i'r Ombwdsmon gyfeirio pwynt cyfreithiol i'r llysoedd. O ran hynny, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y materion hyn gyda Llywodraeth y DU fel rhan o'r trafodaethau ar ddatganoli yn y dyfodol. Mewn perthynas â'r*

Gwasanaethau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

23. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar wasanaethau tacsis a hurio preifat ar 23 Mai 2014. Ystyriwyd yr argymhellion fel rhan o ddatblygu Papur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus',, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2018. Mae hyn ar gael yn: https://llyw.wales/sites/default/files/consultations/2018-12/improving-public-transport-0.pdf

24. Roedd y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar bedwar cynnig:
    - Creu Safonau Cenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod safonau tacsis a cherbydau hurio preifat (PHV) yn amrywio ar draws 22 awdurdod lleol Cymru;
    - Estyn pwerau gorfodi er mwyn caniatáu i swyddogion yr awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn unrhyw dacsi/gerbyd hurio preifat sy'n gweithio yn eu hardal;
    - Sefydlu protocolau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu teithwyr; a
    - Ailgyfeirio'r holl swyddogaethau trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat oddi wrth yr awdurdodau lleol a'u rhoi i Gyd-awdurdod Trafnidiaeth (JTA).

25. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 27 Mawrth 2019. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019. Mae hyn ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/improving-public-transport-summary-of-response.pdf

26. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod cefnogaeth gref dros safonau cenedlaethol, gwell pwerau gorfodi a rhannu gwybodaeth, ond cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad i gynigion JTA. Roedd adborth cyson hefyd nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r heriau presennol

a wynebir gan y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat a'u rheoleiddwyr.

27. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru'n cydweitho â Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu'r cynigion hyn ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu cynllun yn argymell nifer o ddiwygiadau anneddfwriaethol yn y tymor byr cyn unrhyw newid deddfwriaethol posibl.

28. Mae Llywodraeth Cymru'n anelu at ddiweddaru system drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat i'w gwneud yn ffit i'r Gymru fodern. Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys creu safon gyson i'w chymhwyso ledled Cymru sy'n hybu diogelwch, sy'n cyfrannu ar amgylchedd glanach, sy'n gwella profiadau cwsmeriaid ac sy'n hygyrch i bawb.

29. Mae meysydd gwaith sy'n cael eu hystyried yn ystod y gwaith datblygu polisi hwn yn cynnwys:
    - Darparu hyfforddiant ar gyfer gyrwyr mewn meysydd megis diogelu plant ac oedolion agored i niwed, ymwybyddiaeth anabledd a gwasanaeth cwsmeriaid;
    - Safonau cenedlaethol ar gyfer gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch;
    - Gwell pwerau gorfodi;
    - Gwell dulliau o rannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol a datblygu cofrestr genedlaethol;
    - Effaith cerbydau trwyddedig ar yr amgylchedd;
    - Problemau sy'n gysylltiedig â hurio ar draws ffiniau;
    - Hyrwyddo cydraddoldeb trwy sicrhau bod pob cwsmer yn cael mynediad i gerbydau addas; a
    - Gwella profiadau cwsmeriaid.

30. Yn ystod datblygu'r cynigion bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys cynrychiolwyr y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat.

Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol.

Tribiwnlysoedd Datganoledig i Gymru

31. Fel rhan o 13eg Rhaglen Comisiwn y Gyfraith o Ddiwygio'r Gyfraith, mae'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gychwyn ar brosiect Cymru'n unig ar y gyfraith sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd datganoledig i Gymru. Disgwylir i hyn dechrau yn gynnar yn 2019.

Diwygio Lesddaliadol a Chyfunddaliadol

32. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Chomisiwn y Gyfraith ar ei brosiectau ynghylch rhyddfreinio lesddaliadau; cyfunddaliad; a'r hawl i reoli.

33. Yn dilyn ymarferion ymgynghori ar ddiwedd 2018, mae'r Comisiwn yn ystyried ei argymhellion, ac fe ddisgwylir iddo gyhoeddi adroddiadau terfynol yng Ngwanwyn 2020. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi sylw agos i brosiectau Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio lesddaliadol a chyfunddaliadol a bydd yn ystyried ei chanfyddiadau unwaith yr adroddir arnynt.

34. Mae gwybodaeth bellach am brosiectau Comisiwn y Gyfraith i'w chael yn: https://www.lawcom.gov.uk/project/residential-leasehold-and-commonhold/

Penderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith

35. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.